Undeb Myfyrwyr Glyndŵr Wrecsam Wrexham Students' Union

Prifysgol Wrecsam Wrexham University

| CYTUNDEB PERTHYNAS RHWNG<br>PRIFYSGOL WRECSAM<br>AC<br>UNDEB MYFYRWYR GLYNDŴR<br>WRECSAM | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | - | | |
| **Awdur** | Clerc i Fwrdd y Llywodraethwyr/Undeb Myfyrwyr | | |
| **Awdurdodwyd gan:** | Y Bwrdd/Undeb y Myfyrwyr | | |
| **Gweithredu drwy:** | VCB/Bwrdd y Llywodraethwyr/Undeb Myfyrwyr | | |
| **Cyfeiriad:** | AGBOG2223057 | | |
| **Newydd/Wedi ei Amnewid:** | STBG1718030 | | |
| **Rhif y Fersiwn:** | F2 | **Pwyllgor Cymeradwyo:** | UM<br>Enwebiadau a Llywodraethiant<br>Bwrdd y Llywodraethwyr |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | 12fed Gorffennaf 2024 | **Cofnod rhif:** | Bwrdd y Llywodraethwyr 23.134 |
| **Statws:** | Cymeradwyo | **Dyddiad Gweithredu:** | 1af Awst 2017 |
| **Cyfnod o gymeradwyaeth:** | 5 mlynedd (Angen adolygiad blynyddol) | **Dyddiad Adolygu:** | Gorffennaf 2027 |

**CYTUNDEB PERTHYNAS RHWNG**
**PRIFYSGOL WRECSAM**
**A**
**UNDEB MYFYRWYR GLYNDŴR WRECSAM**

## 1. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1 Nod y cytundeb perthynas hwn yw darparu cyfeiriad clir i'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, ac mae'n amlinellu'r sail ar gyfer y berthynas rhwng y ddau a'r egwyddorion y bydd y ddau ohonynt yn gweithredu oddi tanynt.

1.2 Mae'r cytundeb perthynas yn ystyried y gofyniad cyfreithiol sydd ar y Corff Llywodraethu dan Ddeddf Addysg 1994 i sicrhau bod Undeb Myfyrwyr yn cael ei sefydlu sy'n *'gweithredu mewn modd teg a democrataidd ac sy'n atebol am ei gyllid'*. Mae'n tynnu ar brosiect 'Llywodraethu Da' UCM 2011 ble nodwyd yr egwyddorion allweddol sy'n sail i berthynas waith ardderchog rhwng undebau myfyrwyr a sefydliadau addysg uwch a gymeradwywyd gan Universities UK, Pwyllgor Cadeiryddion ac Urdd y Brifysgol; a Chylchlythyr CCAUC W14/06HE *Canllawiau diwygiedig ar arfer da wrth ariannu undeb myfyrwyr a chynrychiolaeth myfyrwyr effeithiol a democrataidd.*

1.3 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod Undeb y Myfyrwyr yn bartner pwysig ac yn chwarae rhan allweddol i wella profiad myfyrwyr.

## 2. Cefndir

2.1 Ymgorfforwyd Undeb Myfyrwyr Glyndŵr Wrecsam ar 1af Awst 2016 gan sefydlu un corff newydd elusennol y mae ei amcanion yn hyrwyddo addysg myfyrwyr ym Mhrifysgol Wrecsam er budd y cyhoedd drwy:

i. hyrwyddo diddordebau a lles myfyrwyr ym Mhrifysgol Wrecsam yn ystod eu cwrs astudio a chynrychioli, cefnogi a chynghori myfyrwyr;
ii. bod yn sianel gynrychioliadol gydnabyddedig rhwng myfyrwyr a Phrifysgol Wrecsam ac unrhyw gyrff allanol eraill; a
iii. Darparu gweithgareddau a fforymau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon a hamdden ar gyfer trafodaethau a dadleuon ar gyfer datblygiad personol ei fyfyrwyr.

2.2 Mae'r cytundeb perthynas hwn yn cael ei gefnogi gan y canlynol:

i. cyfansoddiad Undeb y Myfyrwyr sydd i'w adolygu ganddynt o leiaf bob pum mlynedd ac a gymeradwywyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr;
ii. côd ymarfer, a gyhoeddwyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr, sy'n nodi'r modd y mae gofynion y Ddeddf Addysg i'w dwyn i rym mewn perthynas â gweithrediad, materion ariannol, cysylltiadau a chwynion yr UM;
iii. memorandwm o gytundeb rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr sy'n nodi cyfrifoldebau ac ymrwymiadau Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol, y berthynas ariannol a'r sianeli cyfathrebu;
iv. Siarter Myfyrwyr sy'n cael ei hysgrifennu a'i hadolygu ar y cyd rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn flynyddol a'i rhannu â Bwrdd y Llywodraethwyr, ac sy'n cynnwys

a. gwybodaeth am astudiaethau myfyrwyr (e.e. y Fframwaith Dysgu Gweithredol), cyfathrebu â'i gilydd, y Gymraeg, cefnogaeth a lles, cynrychiolaeth a lleisio pryderon
b. ein hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth i sicrhau'r profiad gorau posib i'r brifysgol a myfyrwyr ac o'r herwydd, gweithio gyda'n gilydd i adolygu, cefnogi a herio ein gilydd wrth greu'r strategaeth orau bosibl ar gyfer y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr.
c. ein gweledigaeth ar y cyd ar gyfer Undeb y Myfyrwyr mai 'curiad calon' cymuned myfyrwyr ffyniannus ydyw.

## 3. EGWYDDORION

Rydym yn cytuno i fabwysiadu'r egwyddorion canlynol sy'n sail i, ac yn gwella'r berthynas waith rhwng y ddau gorff:

### 3.1 Partneriaeth Strategol ac Ymgysylltiad

Ysbryd o bartneriaeth rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr sy'n llywio cyfeiriad strategol y ddwy ochr ac yn llywio cytundebau gwasanaeth.

Ymgysylltu gwybodus â chynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr mewn cyrff gwneud penderfyniadau sefydliadol allweddol sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng Llywydd yr Undeb ac Is-Ganghellor y Brifysgol
- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr Undeb a'r Dirprwy Is-Ganghellor ar faterion academaidd a phrofiad myfyrwyr
- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr Undeb a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau ar gyfer materion gweithredol a phrofiad myfyrwyr
- Cyfarfodydd dal i fyny rheolaidd gyda'r Deoniaid Cyswllt ar gyfer Profiad Myfyrwyr
- Aelodaeth o:
    - Bwrdd Llywodraethwyr a Phwyllgorau perthnasol y Bwrdd
    - Bwrdd Academaidd a phwyllgorau perthnasol y Bwrdd Academaidd
    - Bwrdd yr Is-Ganghellor
    - Sefydlwyd grwpiau tasg a gorffen a rhwydwaith allweddol i fwrw ymlaen â gwelliannau o ran profiad academaidd a phersonol myfyrwyr mewn meysydd fel: gwelliant digidol; cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; gweithio mewn partneriaeth academaidd; cynaliadwyedd amgylcheddol; Y Gymraeg; iechyd meddwl a lles.

### 3.2 Myfyriwr-Ganolog

Ymrwymiad ar y cyd i ddatblygu a gwella profiad myfyrwyr o agweddau academaidd ac allgyrsiol eu bywydau.

### 3.3 Llais y Myfyrwyr

Cydnabyddiaeth gan y Brifysgol bod Undeb y Myfyrwyr yn brif randdeiliad a phrif gorff sy'n cynrychioli llais y myfyrwyr.

Byddwn yn gweithio ar y cyd i gydnabod llais y myfyrwyr drwy amrywiaeth o ddulliau, er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn bartneriaid ar bob lefel o'r Brifysgol. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod y System Cynrychiolaeth Myfyrwyr yn cael ei chyflwyno'n effeithiol, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

- Recriwtio a dethol
- Dysgu a datblygu, gan gynnwys modiwl eiriolaeth
- Ymgymryd â'r rôl, gan gynnwys darparu modiwl Llais Myfyrwyr Unitu
- Gwobr a chydnabyddiaeth, gan gynnwys gwobrau myfyrwyr a staff.

- Cysylltu â'r Cyngor Myfyrwyr a Chynrychiolwyr Cwrs i nodi materion allweddol sy'n effeithio ar brofiad myfyrwyr
- Adolygiad blynyddol o safbwyntiau'r Cyngor Myfyrwyr i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol wrth gynrychioli'n ddigonol yr holl grwpiau myfyrwyr.

### 3.4 Parch a dealltwriaeth

Eglurder ynghylch rolau gwahanol y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr a'r gwerth y mae pob plaid yn ei gynnig i'r berthynas.

### 3.5 Bod yn agored, ymddiriedaeth ac enw da

Cyfathrebu rheolaidd llawn, agored ar faterion perthnasol, yn enwedig materion sy'n debygol o gael effaith ar y parti arall, poblogaeth y myfyrwyr a/neu gyd-randdeiliaid eraill, a gweithio i sicrhau bod enw da y naill a'r llall yn cael ystyriaeth ddofn yn eu gweithredoedd.

### 3.6 Cefnogaeth ac ymrwymiad

Rhyngweithio adeiladol. Ymrwymiad amlwg i wneud i'r berthynas weithio trwy fuddsoddi amser ac adnoddau.

### 3.7 Annibyniaeth

Cydnabod gwerth Undeb Myfyrwyr cryf dan arweiniad myfyrwyr sydd â'r grym i benderfynu a rheoli ei faterion ei hun. Cydnabod yr angen i'r Brifysgol gydbwyso buddiannau amrywiaeth o randdeiliaid o fewn cyd-destun allanol cynyddol heriol.

### 3.8 Atebolrwydd

Atebolrwydd Undeb y Myfyrwyr i'r Brifysgol fel goruchwyliwr (o dan Ddeddf Addysg Uwch 1994) a phrif gyllidwr, o fewn fframwaith y cytunwyd arno ar y cyd sy'n gadarn, yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gydnaws â gofynion adrodd rheoleiddwyr eraill, megis y Comisiwn Elusennau a/neu tŷ'r cwmnïau.

### 3.9 Amrywiaeth, Cynhwysiant, Cydlyniant[1] a Chydraddoldeb (DICE)

Ymrwymiad ar y cyd ac ystyriaeth weithredol o amrywiaeth, cynhwysiant, cydlyniant ac anghenion cydraddoldeb y gymuned myfyrwyr a phrifysgolion

### 3.10 Cyllid

Byddwn yn ystyried swyddogaethau craidd ac ychwanegol Undeb y Myfyrwyr ac yn cytuno ar gyllid priodol.

Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod cynlluniau mynediad a chyfranogiad digonol yn cael eu mabwysiadu a'u hadolygu'n flynyddol i sicrhau bod y rhwystrau i gyfranogiad mewn addysg uwch yn cael eu hystyried, yn cael sylw ac yn cael eu chwalu, gyda gweithgareddau ac adnoddau priodol yn cael eu rhannu rhwng ein sefydliadau.

### 3.11 Diogelu Data

Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod ein myfyrwyr yn mwynhau profiad di-dor wrth fanteisio ar fuddion aelodaeth o'r ddau sefydliad wrth barchu gofynion GDPR a deddfau diogelu data perthnasol.

---

[1] Mae cydlyniant yn yr ystyr hwn yn cyfeirio at ddatblygu a chynnal perthynas gadarnhaol gref rhwng pobl o wahanol gefndiroedd, gyda gweledigaeth gyffredin ac ymdeimlad o berthyn i bawb

### 3.12 Rhyddid i Lefaru

Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau ein bod ein rhwymedigaeth i hyrwyddo rhyddid i lefaru a gweithio o fewn y gyfraith wrth ddarparu profiadau addysg diogel yn cael eu parchu.

## 4. Perthynas Gweithio

Bydd yr egwyddorion a amlinellir uchod yn berthnasol i bob rhyngweithiad rhwng Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol ac maent yn arbennig o bwysig lle cynhelir cyfarfodydd ffurfiol rhwng y ddau gorff.

## 5. Adolygu

Bydd y Cytundeb Perthynas hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol ar y cyd ag Undeb y Myfyrwyr a'i gyflwyno i Fwrdd y Llywodraethwyr yn y cyfarfod terfynol ym mhob blwyddyn academaidd.

**Cymeradwywyd gan:**

### 5.1 Bwrdd y Llywodraethwyr

Llofnod

Dyddiad: 17eg Gorffennaf 2024

Dr Leigh Griffin
Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethwyr

### 5.2 Bwrdd yr Is-Ganghellor

Llofnodi:

Dyddiad: 17eg Gorffennaf 2024

Yr Athro Maria Hinfelaar
Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr

### 5.3 Undeb Myfyrwyr Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

Llofnod:
Dyddiad:

Maisie Head
Llywydd Undeb Myfyrwyr Glyndŵr Wrecsam 2024/25